



Adroddiad Monitro Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2024/25

Cyflwyniad

Mae gan Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC) ddyletswydd gyfreithiol i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg fel y'u pennwyd gan [Gomisiynydd y Gymraeg](#) yn yr [Hysbysiad Cydymffurfio](#) a gyhoeddwyd ar 30 Medi 2016.

Mae Safonau'r Gymraeg 155, 161 a 167 yn gosod gofyniad ar IOPC i gyhoeddi adroddiad blynyddol hwn sy'n cynnwys gwybodaeth am mae'r sefydliad wedi cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a gynhwysir yn yr Hysbysiad Cydymffurfio.

Uchafbwyntiau

Er bod llawer o agweddau ar gydymffurfiaeth bellach wedi'u hymwreiddio o fewn arferion a gweithdrefnau adrannol ac yn cael eu hystyried fel busnes fel arfer, mae angen tynnu sylw at welliannau a chyflawniadau sylweddol yn ystod y cyfnod adrodd hwn:

- Mae proses lywodraethu newydd wedi'i chyflwyno i fonitro cydymffurfiaeth yn erbyn ein [Hysbysiad Cydymffurfio Safonau'r Iaith Gymraeg](#). Mae ein Grŵp Sicrwydd Strategaeth, Ymgysylltu a Chyfathrebu newydd yn monitro cydymffurfiaeth drwy graffu ar wybodaeth am sut mae pob adran yn perfformio o ran cyrraedd y targedau yn ei Chynllun Gweithredu Safonau'r Gymraeg. Mae'r gwaith craffu hwn yn ein helpu i nodi lle mae cydymffurfiaeth eisoes wedi'i chyflawni a lle mae angen i ni dargedu gwelliannau.
- Lansiwyd ein gwefan yn 2023 gyda 12 tudalen ar gael yn Gymraeg. Erbyn diwedd cyfnod adrodd 2024/25, mae'r holl dudalennau sy'n cynnwys gwybodaeth statig a'r holl ffurflenni ar gyfer y cyhoedd ar gael yn y Gymraeg. Yn adran newyddion y wefan, mae datganiadau i'r wasg sy'n ymwneud ag achosion yng Nghymru yn unig ar gael yn y Gymraeg. Mae rhai o'n cyhoeddiadau Cymraeg i'w gweld yn y Llyfrgell Cyhoeddiadau ar y wefan.
- Fe wnaethom fynychu'r Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd am y tro cyntaf yn 2024, gan rannu stondin ag adrannau Llywodraeth y DU. Tra'r oeddem yn yr Eisteddfod, fe wnaethom gynnal arolwg gydag ymwelwyr â'r stondin yn gofyn a oeddent yn ymwybodol o IOPC a'i gwaith, ac a fyddent yn dewis defnyddio'r Gymraeg pe bai angen iddynt gysylltu â ni. Mae canlyniadau'r arolwg yn cael eu defnyddio i wella'r ffyrdd mae IOPC yn codi ymwybyddiaeth o'i gwasanaethau ymhlith siaradwyr Cymraeg.

- Rydym wedi lansio fideo newydd ar ein gwefan sydd wedi'i anelu'n benodol at siaradwyr a dysgwyr Cymraeg. Mae'r fideo hwn yn esbonio pa wasanaethau rydym yn eu darparu yn y Gymraeg. Gallwch weld y fideo [yma](#)
- Mae ein Rheolwr Datblygu'r Gymraeg a'n cynghorydd Cydraddoldeb wedi cydweithio i lunio a chyhoeddi dogfen ganllawiau i gydweithwyr ar sut i ystyried y Gymraeg, ac effaith Safonau'r Gymraeg, wrth gwblhau Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.
- Mae'r porth recriwtio rydym yn ei ddefnyddio i hysbysebu swyddi wedi'i ail-lansio fel platfform dwyieithog. Bellach, gall defnyddwyr weld y porth yn Gymraeg neu Saesneg, fel y dymunant. Mae hyn yn berthnasol i ddarpar ymgeiswyr sy'n gweld pa swyddi sy'n cael eu hysbysebu ar hyn o bryd, yn ogystal ag aelodau o staff sydd am gyflawni prosesau'r porth (e.e. tasgau recriwtio fel llunio rhestr fer) yn y Gymraeg.
- Mae ein taflen "Deall ein hymchwiliadau" bellach wedi'i chyhoeddi yn y Gymraeg. Mae'r daflen hon ar gael i bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau i'w helpu i ddeall beth i'w ddisgwyl gan ein prosesau ymchwilio.
- Mae ein tîm Ymgysylltu â Rhanddeiliaid, ein Canolfan Cyswllt Cwsmeriaid a'n tîm Rheoli Gwybodaeth wedi diweddarau eu negeseuon e-bost cydnabyddiaeth awtomatig i fod yn ddwyieithog.
- Mae ein canllawiau newydd i'r Rheolwr Ymgysylltu â Goroeswyr wedi'u cyhoeddi yn y Gymraeg er mwyn helpu cydweithwyr sy'n darparu gwasanaethau rheng flaen i siaradwyr Cymraeg a chyfeirio goroeswyr at sefydliadau eraill sy'n gallu cynnig eu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg hefyd.
- Mae holiadur adborth defnyddwyr ein Canolfan Cyswllt Cwsmeriaid ar gael yn y Gymraeg. Defnyddir yr arolwg hwn i gasglu adborth sy'n ein helpu i wella ein gwasanaethau.
- Mae'r ffurflenni a ddefnyddir gan ein hymchwilwyr pan fyddant yn casglu gwybodaeth gan ddioddefwyr a thystion ar gael yn y Gymraeg. Er nad yw'r ffurflenni hyn yn cael eu llenwi gan aelodau'r cyhoedd, mae cael y cwestiynau sydd angen eu gofyn o flaen ein hymchwilwyr yn golygu bod ein hymchwilwyr sy'n siarad Cymraeg yn gallu canolbwyntio ar gyfathrebu'n effeithiol â'r unigolyn dan sylw yn hytrach na gorfod ceisio cyfieithu ffurflenni Saesneg wrth siarad.

Cwynion

Ni ddaeth unrhyw gwynion mewn perthynas â'r Gymraeg i law yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

Hysbysebu swyddi

Yn ystod cyfnod adrodd 2024/25:

- Ni hysbysebwyd yr un swydd lle'r oedd y Gymraeg yn hanfodol.
- Hysbysebwyd 2 swydd lle'r oedd y Gymraeg yn ddymunol
- Hysbysebwyd 187 o swyddi lle nad oedd angen unrhyw sgiliau Cymraeg

Hyfforddiant

Yn ystod cyfnod adrodd 2024/25, cofrestrodd 21 aelod o staff ar gyrsiau i ddysgu neu wella eu sgiliau Cymraeg.

Enw'r cwrs	Nifer y dysgwyr 2023/24	Nifer y dysgwyr 2024/25
Mynediad	17	16
Sylfaen	2	5
Gloywi Iaith	1	0

Sgiliau Cymraeg ein gweithwyr

Gofynnwyd i'r holl staff nodi eu lefel sgiliau Cymraeg yn system Rheoli Pobl IOPC. Gofynnwyd i'r staff asesu eu lefel sgiliau yn erbyn 6 disgrifydd:

- Lefel 0 (Dim sgil)
- Lefel 1 (Mynediad)
- Lefel 2 (Sylfaen)
- Lefel 3 (Canolradd)
- Lefel 4 (Uwch)
- Lefel 5 (Hyfedr)

Mae 667 o aelodau staff bellach wedi datgan eu lefel sgiliau Cymraeg, sef 66% o'n holl staff. Mae dadansoddiad o'r ymatebion isod:

Lefel sgiliau	Nifer: 2023/24	% 2023/24	Nifer: 2024/25	% 2024/25
Lefel 0	221	22%	527	52%
Lefel 1	49	5%	106	9%
Lefel 2	8	0.81%	22	0.8%
Lefel 3	2	0.2%	4	0.4%
Lefel 4	1	0.1%	2	0.2%
Lefel 5	4	0.4%	6	0.6%

Parhawyd â'r ymdrechion i gasglu data gan yr holl aelodau staff presennol eleni, gyda nodiadau atgoffa yn cael eu cyhoeddi ar y fewnrwyd staff o bryd i'w gilydd. Rydym yn disgwyl cynnwys set ddata lawn yn yr adroddiad monitro blynyddol nesaf.

Cydymffurfio â safonau darparu gwasanaethau

Cyfathrebu â'r cyhoedd

Mae canllawiau wedi'u cyhoeddi i staff i roi cyhoeddusrwydd i ofynion y Safonau Darparu Gwasanaethau a'r angen i gydymffurfio â nhw. Mae gwybodaeth am sut i gael cyfieithiadau Cymraeg ar gael i staff drwy ein mewnrwyd. Mae system rheoli achosion electronig newydd wedi'i datblygu i symleiddio'r broses o gadw cofnodion, ac mae modd cadw dewis iaith defnyddwyr gwasanaethau ar y system newydd hon.

Mae'r papur pennawd a ddefnyddir gan ein swyddfa yng Nghaerdydd er mwyn cyfathrebu ag aelodau'r cyhoedd yng Nghymru yn cynnwys datganiad dwyieithog ein bod yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. Mae'r dudalen "Cysylltwch â ni" ar ein gwefan ar gael yn y Gymraeg, ac mae datganiad ar y dudalen hon yn esbonio ein bod yn croesawu galwadau ffôn yn y Gymraeg. Mae ein holl gyhoeddiadau'n cynnwys datganiad ein bod yn croesawu cyswllt yn y Gymraeg. Pan fydd siaradwyr Cymraeg yn ffonio ein Canolfan Cyswllt Cwsmeriaid, maent yn clywed neges yn y Gymraeg sy'n cynnig gwasanaeth Cymraeg. Mae holl staff ein swyddfa yng Nghaerdydd wedi cael cyfarwyddiadau ar sut i gyfarch pobl ar y ffôn yn Gymraeg, ac mae'r wybodaeth hon ar gael ar ein mewnrwyd hefyd.

Mae unrhyw ddeunyddiau cyhoeddusrwydd neu hysbysebu a gynhyrchwn i'w defnyddio yng Nghymru yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg. Wrth fynychu digwyddiadau cyhoeddus yng Nghymru, rydym yn arddangos fersiynau Cymraeg o'n taflenni, gan gynnwys y daflen "Sut i wneud cwyn: canllaw i system gwynion yr heddlu".

Dyma enghreifftiau o ddogfennau ar gyfer y cyhoedd rydym yn eu cynhyrchu yn ddwyieithog:

- Sut i wneud cwyn: canllaw i system gwynion yr heddlu
- Ffurflen gwyno
- Ffurflenni adolygu/apelio
- Adroddiad Monitro Blyneddol Safonau'r Gymraeg
- Adroddiad Effaith
- Cynllun Strategol
- Pecyn Teulu (gwybodaeth i deuluoedd mewn profedigaeth)
- Taflen Hawl Dioddefwyr i Adolygu

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, mae mwy a mwy o'r tudalennau ar ein gwefan ar gael yn y Gymraeg. Lle mae tudalennau gwe ar gael yn y Gymraeg, fe welwch y gair "Cymraeg" ar frig y dudalen.

Nid oes gennym bresenoldeb ar Facebook. Mae ein negeseuon safonol ar X (sy'n berthnasol i Gymru yn unig) yn cael eu rhannu'n ddwyieithog. Mae'r holl staff yn ymwybodol o'r gofyniad i ateb yn Gymraeg unrhyw negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol yn y Gymraeg.

Arwyddion

Mae unrhyw arwyddion a godir yng Nghymru yn ddwyieithog, er enghraifft, byrddau apêl tystion. Mae'r gwaith o gyfieithu testun ar gyfer arwyddion yn cael ei gontactio'n allanol i gwmni cyfieithu.

Hyrwyddo Gwasanaethau Cymraeg

Mae ein gwasanaethau Cymraeg yn cael eu hyrwyddo drwy ein gwefan, ein canolfan cyswllt cwsmeriaid ac yn ein taflenni gwybodaeth.

Mae neges i ddweud bod aelod o staff yn siarad Cymraeg ar gael ar ein mewnwyd, fel y gall staff sy'n siarad Cymraeg ei chopio a'i gludo i'w llofnodion e-bost.

Mae bathodynau a laniardau sy'n dangos y logo "Siarad Cymraeg" ar gael i aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg ac sy'n dymuno eu gwisgo.

Cydymffurfio â Safonau Llunio Polisi

Mae'r holl staff wedi cael gwybod am y gofyniad i ystyried y Gymraeg wrth lunio polisiâu newydd ac adolygu polisiâu presennol. Mae ein ffurflenni Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn annog staff i ystyried y Gymraeg ac yn fodd i nodi unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol a nodir. Mae ein Rheolwr Datblygu'r Gymraeg yn rhoi arweiniad i staff i sicrhau bod y Gymraeg wedi'i hystyried yn briodol yn ein polisiâu, ein prosiectau a'n mentrau newydd a bod pobl yn cael pob cyfle posibl i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae dogfen ganllawiau sy'n esbonio sut i ystyried effaith

Safonau'r Gymraeg wedi'i chyhoeddi ar ein mewnwyd er budd cydweithwyr sy'n cynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb a'r Gymraeg. Yn ystod cyfnod adrodd 2024/25, fe wnaeth Rheolwr Datblygu'r Gymraeg roi cyngor cydymffurfio mewn perthynas ag 20 o bolisiâu a gweithdrefnau sefydliadol newydd neu ddiwygiedig.

Cydymffurfio â Safonau Gweithredol

Polisi Defnydd Mewnol o'r Gymraeg

Mae polisi drafft newydd ar sut y byddwn yn defnyddio ac yn hyrwyddo'r Gymraeg yn fewnol wedi'i greu ac yn disgwyl cymeradwyaeth drwy ein proses lywodraethu fewnol. Rydym yn disgwyl i'r Polisi Defnydd Mewnol o'r Gymraeg newydd gael ei gyhoeddi yn ystod cyfnod adrodd 2024/25.

Prosesau recriwtio

Mae staff sy'n gweithio yn ein tîm Rheoli Pobl wedi cael gwybod am Safonau'r Gymraeg sy'n ymwneud â chyfathrebu yn y Gymraeg a chynnig dewis iaith i unigolion sy'n gwneud cais am rolau gydag IOPC.

Cofnodi Gwyliau Blynnyddol, Absenoldebau o'r Gwaith ac Orlau Gwaith Hyblyg

Mae ffurflenni sy'n cofnodi gwyliau blynnyddol, absenoldebau o'r gwaith ac oriau gwaith hyblyg ar gael yn y Gymraeg drwy ein system adnoddau dynol hunanwasanaeth ar-lein.

Polisiâu Adnoddau Dynol

Mae rhai o'r polisiâu adnoddau dynol y cyfeirir atynt yn Hysbysiad Cydymffurfio Safonau'r Iaith Cymraeg IOPC ar gael yn y Gymraeg, sef:

- Ymddygiad yn y gweithle
- Rheoli perfformiad
- Absenoldeb o'r gwaith
- Iechyd a Diogelwch
- Gweithio hybrid

Mae gwaith yn mynd rhagddo i adolygu, cyfieithu a chyhoeddi'r polisiâu canlynol:

- Cyflogau a buddion yn y gwaith
- Patrymau gwaith

Cwynion gan Staff a Gweithdrefnau Disgyblu

Mae staff wedi cael canllawiau i ddweud y gallant wneud cwynion yn y Gymraeg ac ymateb yn y Gymraeg i gwynion neu honiadau yn eu herbyn. Roedd y canllawiau a roddwyd i staff hefyd yn cynnwys:

- yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn unrhyw gyfarfodydd am gŵyn ganddynt yn y Gymraeg
- yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn unrhyw gyfarfodydd am gŵyn neu honiad yn eu herbyn
- yr hawl i gael eu hysbysu yn y Gymraeg am ganlyniad cwyn neu honiad yn eu herbyn

Rhwydwaith Staff Iaith Gymraeg

Mae Rhwydwaith Iaith Gymraeg IOPC (y Rhwydwaith) yn grŵp gwirfoddol sy'n cynnwys aelodau o staff sy'n siaradwyr Cymraeg ac yn ddysgwyr.

Pwrpas y Rhwydwaith yw:

- hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle,
- cefnogi darpariaeth gwasanaethau Cymraeg i aelodau'r cyhoedd
- bod yn grŵp ymgynghorol a ffrind beirniadol i IOPC wrth ddatblygu polisiau, gweithdrefnau, prosiectau a mentrau newydd a allai effeithio ar siaradwyr Cymraeg a dysgwyr

Yn ystod cyfnod adrodd 2024/2025, mae'r Rhwydwaith wedi cyflawni'r gweithgareddau canlynol i gefnogi'r Gymraeg yn IOPC:

- gweithio ar stondin IOPC yn yr Eisteddfod Genedlaethol
- darparu adborth ar ddatblygu polisiau IOPC
- hyrwyddo'r ymgyrch Defnyddia dy Gymraeg
- dathlu Dydd Gŵyl Dewi

Rhagor o wybodaeth / rhoi adborth

I gael rhagor o wybodaeth am gydymffurfiaeth IOPC â safonau'r Gymraeg, neu os hoffech roi adborth adeiladol i ni ynglŷn â'n gwasanaethau Cymraeg, cysylltwch â Catherine Baldwin, ein Rheolwr Datblygu'r Gymraeg:

catherine.baldwin@policeconduct.gov.uk

Cyhoeddwyd Mis Medi 2025

© Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (2025)



Trwyddedir y cyhoeddiad hwn dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0
oni bai lle nodir yn wahanol.

Nid yw hyn yn cynnwys deunydd sy'n perthyn i drydydd partïon.

Rhaid cael caniatâd i ddefnyddio deunydd o'r fath gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

I ddysgu mwy am ein gwaith neu i ofyn am gopi o'r adroddiad
hwn mewn fformat arall, gallwch gysylltu â ni mewn sawl ffordd:

Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC)
10 South Colonnade Canary Wharf Llundain E14 4PU
Ffôn: **0300 020 0096**
Ebost: enquiries@policeconduct.gov.uk
Gwefan: www.policeconduct.gov.uk/cy
Neges destun: **18001 020 8104 1220**

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn y Gymraeg
We welcome telephone calls in Welsh

CUSTOMER
SERVICE
EXCELLENCE®



